Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cynlluniau Rheoli Basn Afon 2021 – 2027

# Ymgynghoriad Gweithio gyda'n Gilydd

(Mehefin 2018)

## Ein gweledigaeth

Mae'n bleser gennym fod yn arwain y ffordd yn Cyfoeth Naturiol Cymru i ddyfodol gwell i Gymru drwy reoli amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy.

Mae ein hamcanion llesiant fel a ganlyn:


- Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy
- Sicrhau bod tir a dŵr Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig
- Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau
- Lleihau'r risgiau i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd
- Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon
- Hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi
- Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

# Rhagair

Mae dŵr yn hanfodol i bobl, anifeiliaid a'n hamgylchedd naturiol. Mae amgylchedd dŵr glân yn darparu dŵr glân i'n cartrefi a'n cymunedau, ein hamaethyddiaeth a'n diwydiant. Fel unigolion, rydym yn defnyddio dŵr bob dydd i'w yfed, i ymolchi ynddo, ac i goginio ag ef. Rydym yn defnyddio dŵr drwy'r nwyddau rydym yn eu prynu a'r prosesau diwydiannol sy'n eu cynhyrchu. Rydym yn defnyddio dŵr ar gyfer adloniant, amaethyddiaeth, pysgota a chludiant. Mae ansawdd dŵr da'n hanfodol i'n hiechyd, ein llesiant, yr economi, ac i alluogi amgylchedd sy’n gweithredu’n iach yr ydym i gyd yn dibynnu ar ei wasanaethau.

Fodd bynnag, drwy ein gweithgareddau, mae'r berthynas fregus rhwng pridd, dŵr a llystyfiant wedi'i newid. Mae rheoli tir, datblygiad trefol, seilwaith draenio ac amddiffynfeydd llifogydd wedi gwaethygu'r materion hynny ymhellach. Mae ein holl weithgareddau'n rhoi pwysau mawr ar ansawdd a swm y dŵr, yr ecosystemau mae'n eu cefnogi, a'r gwasanaethau mae'n eu rhoi i'r gymdeithas.

Offeryn allweddol yw'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i ddarparu manteision sylweddol ar gyfer rheolaeth gynaliadwy ein dyfroedd yn y tymor hir – gwaith sy’n cael ei gyflawni drwy gynlluniau rheoli basn afon. Mae cyflawni hyn yn gofyn i ni ddeall y materion a'r heriau ar draws yr holl system ac i weithio gyda'n gilydd ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat mewn ffordd fwy integredig i gyflawni defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol sy'n gallu ymdopi â newidiadau yn y dyfodol. Mae'r dull a ddefnyddir ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ategu'r diben a'r egwyddorion a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Bydd datblygu datganiadau ardal yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r dull hwn ymhellach a chasglu tystiolaeth i lywio penderfyniadau gennym ni, rhanddeiliaid a phartneriaid. Drwy fod yn rhan o’r gwaith hwn, gallwch gymryd rhan weithredol i helpu i gyflwyno rhagor o welliannau i sicrhau cynaliadwyedd, iechyd a gwydnwch amgylchedd dŵr Cymru.



Ruth Jenkins
Pennaeth y Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol

# Cynnwys

1. Cefndir ..... 5
1.1 Am beth mae'r ymgynghoriad hwn? ..... 5
1.2 Rydym am gael eich barn ..... 6
2. Dull Cyfoeth Naturiol Cymru o ddiweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon ..... 6
2.1 Sut mae cynlluniau rheoli basn afon yn gysylltiedig â chynlluniau a strategaethau eraill ..... 7
2.2 Datganiad o gamau ..... 8
2.3 Dulliau ar gyfer gweithio gyda'n gilydd ..... 9
3. Beth sydd wedi newid ers i'r cynlluniau rheoli basn afon gael eu diweddaru yn 2015 a dysgu yn sgil cylchredau blaenorol ..... 10
3.1 Deddfwriaeth newydd a diwygiedig ..... 10
3.2 Trafodaethau ar ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (yr UE) ..... 11
3.3 Yr hyn rydym wedi'i ddysgu ..... 11
4.0 Trefniadau ymgynghori ..... 12
4.1 Cwestiynau ymgynghori ..... 12
4.2 Sut i ymateb ..... 13
4.3 Sut bydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio? ..... 13
4.4. Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth ..... 13
Atodiad 1: Map o ardaloedd basn afon Cymru ..... 15
Atodiad 2: Datganiad o gamau – Amserlen ar gyfer diweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon (2015–2021) ..... 16
Atodiad 3: Cynlluniau a strategaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli dŵr ..... 18
Atodiad 4: Map o ddatganiadau ardal yng Nghymru ..... 21
Atodiad 5: Prif sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat y mae eu gweithgareddau a'u diddordebau'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynllun rheoli basn afon wedi'i ddiweddaru ..... 22

# 1. Cefndir

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei gynllun corfforaethol, "Rheoli adnoddau naturiol heddiw ar gyfer cenedlaethau yfory", sy’n nodi'r hyn y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n ei wneud hyd at 2022 ac yn adeiladu ar ein Datganiad Llesiant, a gyhoeddwyd yn 2017. Gwnaeth hwn ddisgrifio ein saith amcan llesiant, sy'n dangos sut rydym am gyfrannu at y nodau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn gwneud hyn drwy anelu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a defnyddio'i egwyddorion – sef ein prif ddiben fel a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Un o'n hamcanion llesiant yw sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig. Mae ein cynllun corfforaethol yn nodi'r sefyllfa bresennol yng Nghymru a lle'r ydym am fod yn y tymor hir.  Mae hyn yn cynnwys ein gweledigaeth y bydd tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn ffordd integredig lawn i gael elw ar fanteision amryfal ac y bydd dalgylchoedd dŵr yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys dŵr arwyneb a dŵr daear, ac o'u tarddiad i'r môr.

Un o'r camau gweithredu y byddwn yn ei gymryd dros oes y cynllun corfforaethol er mwyn datblygu tuag at gyflawni'r amcanion llesiant yw y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod cyrff dŵr yn cyflawni statws ecolegol da yn ôl gofyniad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE.

Cyflwynodd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr gylchred chwe blynedd o gynllunio basnau afon.  Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod cymwys i ddatblygu a chyfathrebu'r ymagwedd yng Nghymru i wella ansawdd ac iechyd ecolegol dyfroedd Cymru. Mae'n mynnu bod cynllun rheoli basn afon yn cael ei lunio ar gyfer pob ardal basn afon. Mae gan Gymru dair ardal basn afon (llawn neu rannol): Gorllewin Cymru a'r ddwy ardal drawsffiniol, Afon Dyfrdwy ac Afon Hafren (gweler Atodiad 1).  Mae'r cynlluniau hyn yn disgrifio'r hyn mae angen i fusnesau, defnyddwyr dŵr ac eraill ei wneud i ddiogelu ac adnewyddu'r amgylchedd dŵr.  Cyhoeddwyd y diweddariad cyntaf i'r cynlluniau hyn ym mis Rhagfyr 2015.

## 1.1 Am beth mae'r ymgynghoriad hwn?

Mae cynllunio ar gyfer y drydedd gylchred cynllunio basn afon (2021–2027) yn dechrau gyda'r ymgynghoriad Gweithio gyda'n Gilydd hwn. Mae gweithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol (gan gynnwys cwmnïau dŵr, awdurdodau lleol, cyrff anllywodraethol amgylcheddol, busnes a diwydiant) wrth wraidd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer sut byddwn yn gweithio gydag eraill ac unigolion y mae'n debygol yr effeithir ar eu diddordebau gan y cynlluniau diweddaredig.  Mae'n nodi'r camau, yr ymgynghoriadau a'r amserlen ar gyfer paratoi'r cynlluniau rheoli basn afon.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw nodi'r camau a'r amserlen ar gyfer adolygu a diweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon a'r ffyrdd y gallwch gymryd rhan. Dyma ymgynghoriad cyhoeddus ac rydym yn croesawu barn pawb.  Cynhelir rowndiau ymgynghori eraill yn 2019 ar faterion rheoli dŵr sylweddol ac ar y cynlluniau drafft wedi'u diweddaru yn 2020.  Caiff cynlluniau rheoli basn afon, a'r ymgynghoriadau priodol, eu llunio ar gyfer pob ardal basn afon yng Nghymru: Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy. Fel rhan o'r ymgynghoriad Gweithio gyda'n Gilydd hwn, bydd gofyn i

chi nodi pa ardal basn afon y mae eich ymateb yn berthnasol iddi. Mae dwy ardal basn afon yn cynnwys rhannau o Loegr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain ar adolygu a diweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon ar gyfer Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn arwain ar adolygu a diweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon ar gyfer Ardal Basn Afon Hafren. I gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriadau ar gyfer Afon Hafren, dilynwch y ddolen isod;

https://www.gov.uk/government/consultations/river-basin-planning-working-together

Mae'r dull a'r amserlen a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn cynrychioli barn bresennol Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio ein hymagwedd. Bydd yn rhaid i ni hefyd ystyried canllawiau cynllunio basnau afon gan DEFRA a Llywodraeth Cymru a nodi cyfleoedd am integreiddio cynlluniau rheoli basn afon ymhellach gyda chynlluniau neu brosesau eraill a’u symleiddio, gan gynnwys cynnal gwaith ymgysylltu mewn perthynas â nhw.

### 1.2 Rydym am gael eich barn

Fel ymgynghoriad cyhoeddus, rydym yn croesawu'ch barn. Rydym am gael eich adborth ar amrywiaeth o ystyriaethau allweddol sy'n ymwneud â'r broses o adolygu a diweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon yng Nghymru.

I wneud hyn, rydym wedi amlinellu cwestiynau ymgynghori allweddol yn adran 4.1. Mae gwybodaeth am sut i ymateb a sut byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth yn adran 4.2.

Os oes unrhyw dermau yn y ddogfen hon yn anghyfarwydd, cyfeiriwch at y mynegai yn Atodiad Trosolwg Cynllunio Rheoli Basn Afon am gymorth.

## 2. Dull Cyfoeth Naturiol Cymru o ddiweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon

Mae cynlluniau rheoli basn afon bellach yn rhan o gyd-destun ehangach dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nodau trosfwaol Deddf yr Amgylchedd yw galluogi adnoddau Cymru i gael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig. Bydd ei hegwyddorion yn sail i'r ffordd rydym i gyd yn gweithio a bydd yn helpu i ganolbwyntio ar ymagwedd fwy integredig at reoli adnoddau naturiol.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi fframwaith cyflwyno ar waith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac mae'n cyflwyno rhai egwyddorion syml i fod yn sail i sut rydym i gyd yn gweithio. Bydd yn ein helpu i ganolbwyntio ar ddull mwy integredig o reoli adnoddau naturiol, gan ystyried achosion craidd problemau a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddod o hyd i atebion sy'n gwella amgylchedd dŵr Cymru ac sy'n cyflwyno manteision amgylcheddol amryfal.

Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn edrych ar y pwysau ar ein hadnoddau naturiol ac yn cysylltu gwydnwch adnoddau naturiol Cymru â llesiant pobl Cymru. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Pholisi Adnoddau Naturiol, sy'n nodi cyd-destun cenedlaethol ar gyfer ein gwaith ac yn dangos cyswllt clir rhwng rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a rhaglen y

llywodraeth. Mae adran 3 yn nodi rhai themâu strategol allweddol am y ffordd yr ydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol, gan gynnwys ymgymryd â dull sy'n seiliedig ar leoedd.

Dan ddeddfwriaeth newydd, mae gofyn i ddatganiadau ardal gael eu cyhoeddi i helpu i hwyluso'r gwaith o gyflwyno Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru yn lleol. Mae Deddf yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiadau ardal gynnwys gwybodaeth am yr adnoddau naturiol yn y lle hwnnw, y manteision y maent yn eu darparu, a'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn sicrhau rheolaeth gynaliadwy ohonynt. Bydd saith datganiad ardal (gweler Atodiad 4) - ar gyfer gogledd-orllewin Cymru, gogledd-ddwyrain Cymru, de-ddwyrain Cymru, de-orllewin Cymru, canol de Cymru a chanolbarth Cymru, yn ogystal ag un ar gyfer yr ardal forol. Byddant yn dod â data, gwybodaeth a ffyrdd o ymgysylltu ag eraill ynghyd er mwyn ein cynorthwyo i ddeall cyflwr a thueddiadau adnoddau naturiol mewn ardal yn well, y pwysau sydd arnynt, a'r manteision yr ydym yn eu derbyn. Mae gweithio drwy ddatganiadau ardal yn bwysig oherwydd bydd yn ein helpu i ymgorffori ein diben statudol newydd a'n ffyrdd o weithio. Mae'n rhoi cyfle i gasglu gwybodaeth gan ffynonellau tystiolaeth eraill nad oeddent yn bodoli ar gyfer y gylchred flaenorol o gynlluniau rheoli basn afon.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod saith nod llesiant sy'n disgrifio'r 'math o Gymru rydym am ei weld'. Mae dangosyddion cenedlaethol wedi cael eu gosod i fesur cynnydd wrth gyflawni'r nodau hyn. Canran y cyrff dŵr arwyneb a dŵr daear sy'n cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yw un o'r dangosyddion hyn. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol a fydd yn disodli'r Byrddau Gwasanaethau Lleol gwirfoddol ym mhob ardal awdurdod lleol. Bydd hyn yn cryfhau gweithio ar y cyd ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Y ddyletswydd lesiant ar Cyfoeth Naturiol Cymru yw gweithredu ar y cyd, drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal, gan gyfrannu at gyflawniad y nodau llesiant i Gymru.

Rydym yn gobeithio y byddwn yn parhau i weithio ar draws amrywiaeth eang o randdeiliaid mewn ffordd fwy integredig. Bydd y ffordd newydd hon o weithio'n ein galluogi i edrych ar gyfleoedd i wella ein dyfroedd drwy weithio gydag unigolion a sefydliadau i ddod o hyd i atebion a fydd yn gwella amgylchedd dŵr Cymru, gan gyflwyno manteision ehangach i bobl a'r amgylchedd.

## 2.1 Sut mae cynlluniau rheoli basn afon yn gysylltiedig â chynlluniau a strategaethau eraill

Rhestrir cynlluniau a strategaethau eraill sy'n berthnasol i'r amgylchedd dŵr ac sy'n effeithio, neu yr effeithir arnynt, gan y cynlluniau rheoli basn afon yn Atodiad 3. Mae'r rhain yn cynnwys y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a'r Strategaeth Ddŵr i Gymru. Mae llawer o ddibyniaethau rhwng y cynlluniau rheoli basn afon a'r cynlluniau a strategaethau eraill hyn a gall y rhain fod ar lefel leol neu genedlaethol. Mae llawer o'r rhain yn bodoli ar amserlenni gwahanol i'r cynlluniau rheoli basn afon.

Mae'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn rhedeg ar yr un gylchred gynllunio chwe blynedd â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r rhain yn nodi'r hyn sydd mewn

perygl o lifogydd ynghyd â'r amcanion a'r mesurau rydym yn eu cynnig eu cymryd i reoli'r risg o lifogydd i bobl, yr amgylchedd a gweithgarwch economaidd. Byddwn yn parhau i gydlynu'r gwaith o reoli perygl llifogydd a chynllunio rheoli basnau afon. Mae hyn yn ein galluogi ni a'n rhanddeiliaid i gael golwg ehangach ar y cyfleoedd ar gyfer rheoli'r amgylchedd dŵr yn fwy effeithiol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn helpu i lunio penderfyniadau pwysig, cyfeirio buddsoddiad sylweddol, a chyflwyno manteision sylweddol i gyfrannu at nodau llesiant Cymru a gwella amgylchedd dŵr Cymru. Byddwn hefyd yn ceisio nodi cyfleoedd i integreiddio'r cynlluniau rheoli basn afon gyda chynlluniau a rhaglenni eraill.

## 2.2 Datganiad o gamau

Fel rhan o'r gwaith o gynllunio basnau afonydd,[1] ceir nifer o gamau ymgynghori sydd wedi'u crynhoi yn Atodiad 2 ynghyd ag amserlen ar gyfer y rhain. Efallai y bydd yr amserlen hon yn cael ei heffeithio gan y broses datganiadau ardal yng Nghymru, lle'r ydym yn cynnig rhagor o ddeialog barhaus a hyblyg â rhanddeiliaid ynghylch cyfleoedd i weithio gyda'n gilydd i reoli'r dŵr a'r amgylchedd naturiol ehangach. Bydd y camau'n cynnwys y canlynol:

### (a) Gweithio gyda'n Gilydd (y ddogfen hon)

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys y datganiad o gamau a'r amserlen i gyflwyno'r cynlluniau rheoli basn afon wedi'u diweddaru. Bydd yn cael ei gynnal yn ffurfiol am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau erbyn mis Mehefin 2018. Darperir yr ymgynghoriad ar gyfer Afon Hafren gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

### (b) Crynodeb o'r materion rheoli dŵr sylweddol ar gyfer Ardaloedd Basn Afon Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy

Bydd y crynodeb hwn yn nodi manylion materion rheoli dŵr sylweddol yr ydym yn eu hwynebu ym mhob ardal basn afon. Bydd yn disgrifio rhai o'r ffyrdd rydym yn mynd i'r afael â'r materion hynny. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau erbyn mis Mehefin 2019.

Bydd crynodeb Afon Hafren o'r materion rheoli dŵr sylweddol ar gael gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

### (c) Cynlluniau drafft diweddaredig ar gyfer Ardaloedd Basn Afon Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy

Bydd y cynlluniau rheoli basn afon drafft sydd wedi'u diweddaru yn esbonio sut eir i'r afael â'r problemau sy'n wynebu'r amgylchedd dŵr. Rhagfynegir sut y bydd hyn yn gwella'r amgylchedd dŵr. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau erbyn mis Mehefin 2020.

Bydd cynlluniau rheoli basn afon drafft ar gyfer Afon Hafren ar gael gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

### (ch) Cynlluniau terfynol ar gyfer Ardaloedd Basn Afon Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy, sy'n cael eu cyflwyno i'r awdurdod priodol (Gweinidog Cymru a/neu'r Ysgrifennydd Gwladol) i'w cymeradwyo

[1] Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017

Caiff y cynlluniau terfynol eu cyflwyno i'r awdurdod priodol erbyn mis Medi 2021. Caiff y cynlluniau terfynol eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021.

Caiff Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren ei gyflwyno a'i gyhoeddi gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

### 2.3 Dulliau ar gyfer gweithio gyda'n gilydd

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried sefydlu fforwm newydd o'r enw Fforwm Rheoli Dŵr Cymru wedi'i gadeirio gan aelod o fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Diben Fforwm Rheoli Dŵr Cymru fydd darparu cyfle i rannu tystiolaeth ac archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio gyda'n gilydd ar y cyd i weithio tuag at reolaeth gynaliadwy o ddŵr yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys cydweithio'n weithredol ar gyfer cynllunio a chyflwyno’r gwaith o gynllunio rheoli basnau afon, gan gynnwys ystyriaethau trawsffiniol. Byddai'r fforwm yn ceisio adlewyrchu Fforwm Rheoli Tir Cymru a bod yn gyfwerth ag ef. Cynigir y byddai'r ddau fforwm yn cwrdd yn ôl y gofyn ac y gallai is-grwpiau gorchwyl a gorffen gael eu sefydlu i drafod materion penodol yn fwy manwl. I leihau'r baich ar ein partneriaid, rydym yn rhagweld y bydd y grŵp yn disodli ond yn parhau i adeiladu ar waith da y paneli cyswllt yng Nghymru.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn rhoi gwybod i randdeiliaid am sut y diogelir yr amgylchedd dŵr a sut caiff ei wella ac esbonio pryd a sut i gymryd rhan. Mae hyn yn cynnwys gwaith sy'n digwydd mewn ardaloedd gwahanol, yn amrywio o waith lleol i waith ar lefel dalgylchoedd, datganiadau ardal, ardaloedd basn afon a Chymru gyfan. Byddwn yn sicrhau bod ein data ar gyflwr dŵr yn hygyrch, a fydd yn bwydo i'r ail adroddiad ar gyflwr yr amgylchedd, tystiolaeth i gefnogi datganiadau ardal (e.e. mapio risgiau a chyfleoedd), ac asesiadau llesiant.

Mae pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cynnal asesiad o lesiant lleol ar gyfer ei ardal. Mae'r asesiadau wedi cael eu datblygu gan ddefnyddio data a thystiolaeth o amrywiaeth o bobl a sefydliadau. Rydym wedi darparu data a thystiolaeth sydd gennym neu mae gennym fynediad atynt ar faterion sy’n ymwneud â’r amgylchedd ac adnoddau naturiol i lywio'r asesiadau hyn. Mae y Tîm Partneriaethau Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Asesiadau i Lesiant Lleol i 19 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rhestrir y prif sefydliadau cyhoeddus a phreifat y mae eu gweithgareddau a'u diddordebau'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynllun rheoli basn afon diweddaredig yn Atodiad 5. Byddwn yn cysylltu â hwy gan ddefnyddio dulliau gwahanol, gan gynnwys drwy Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, drwy ymgynghoriadau cyhoeddus, a thrwy'r broses datganiadau ardal.

Fel rhan o ymgynghoriadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Casglu barn gan y cyhoedd, cymunedau, sefydliadau ac ymgyngoreion statudol
- Gwneud defnydd o rwydweithiau presennol a nodi cyfleoedd ymgysylltu ehangach i gefnogi’r gwaith o gyflwyno'r cynlluniau rheoli basn afon diweddaredig
- Gwrando ar yr holl farnau a'u hystyried ar gyfer y camau nesaf

- Cydlynu ein canfyddiadau gyda thrafodaethau parhaus ar ddatganiadau ardal a, thrwy hyn, gweithio i gaffael rhagor o gyfleoedd am integreiddio a chyflwyno manteision ehangach
- Sicrhau bod y rhai sydd am gymryd rhan yn ymwybodol o'r camau sydd ynghlwm wrth greu cynllun rheoli basn afon
- Sicrhau bod gwybodaeth ar ein gwefan yn hygyrch
- Bod yn agored ac yn eglur
- Casglu ac asesu'r holl ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd mewn ffordd deg

Gallai dulliau o **hysbysu** gynnwys:

- Gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru, gwefannau partneriaid Cyfoeth Naturiol Cymru, y cyfryngau cymdeithasol, ac unrhyw fecanweithiau eraill sy'n dod i'r amlwg trwy'r broses datganiadau ardal

Gallai dulliau rydym yn eu defnyddio i **ymgynghori** gynnwys y canlynol:

- Ffeithluniau
- Cyfarfodydd
- Ymgynghoriadau ar-lein
- Y cyfryngau cymdeithasol

Bydd gweithio a datrys problemau gyda'n gilydd yn caniatáu'r canlynol:

- Canolbwyntio ar ganlyniadau – gweithio gydag eraill i ddeall y canlyniadau maent am eu cyflawni
- Trafodaethau agored ac onest am yr hyn y mae modd ei wneud a'r hyn nad oes modd ei wneud
- Cynllunio gyda'n gilydd cyn cymryd unrhyw gamau gweithredu, gan gynnwys y rhai sydd â diddordeb wrth gynllunio gwaith
- Rhannu gwybodaeth ymhlith y rhai sy'n rhan o'r broses (cyhyd â phosib)

Gallai dulliau y gallwn eu defnyddio i **weithio gydag eraill** gynnwys y canlynol:

- Defnyddio rhwydweithiau mewnol ac allanol presennol a phartneriaid eraill
- Datblygu asesiadau llesiant a datganiadau ardal
- Datblygu cyfleoedd ymgysylltu ehangach, e.e. drwy gysylltu â'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a Chynllun Morol Cymru pan fydd yn cael ei gyhoeddi

# 3. Beth sydd wedi newid ers i'r cynlluniau rheoli basn afon gael eu diweddaru yn 2015 a dysgu yn sgil cylchredau blaenorol

## 3.1 Deddfwriaeth newydd a diwygiedig

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ddwy ddeddf newydd yng Nghymru sy'n newid y ffordd rydym yn gweithio.

Daeth y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i rym yn 2000. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn adolygu'r gyfarwyddeb erbyn diwedd 2019 i wirio a yw'n dal yn addas i'r diben ac i

nodi unrhyw welliannau posib.  Cafodd y rheoliadau sy'n trosi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr eu diweddaru yn 2017.[2]

## 3.2 Trafodaethau ar ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (yr UE)

Mae'r heriau a'r cyfleoedd ar ôl Brexit yn arbennig o sylweddol ar gyfer y rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol gyda'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn un o gyfarwyddebau'r UE sy'n gosod y safonau ac yn arwain llawer o'n gwaith ar yr amgylchedd dŵr.  Fel a nodir yn ein cynllun corfforaethol, rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd, gan ddylanwadu a helpu i ddatblygu'r opsiynau gorau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy.

## 3.3 Yr hyn rydym wedi'i ddysgu

Mae'n bwysig ein bod yn dysgu ac yn addasu o gylchredau blaenorol cynllunio rheoli basnau afon, gan adeiladu ar hyn i sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu â'r holl bartïon â diddordeb. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi mwy o gyfleoedd fel y gallwn rannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau i lywio'r diweddariad nesaf hwn.  Bydd cyfuno adnoddau ac ymdrech yn rhoi canlyniadau gwell i sicrhau bod amgylchedd dŵr Cymru'n parhau i gael ei ddiogelu a'i wella i bawb ei fwynhau.

Yn yr ymgynghoriad Gweithio gyda'n Gilydd blaenorol, dywedasoch wrthym:

- Eich bod am fod yn rhan o'ch ardal leol a chymryd rhan mewn materion penodol sy'n bwysig i chi
- Bod angen i ni ymgysylltu â chynulleidfa ehangach – nid y sefydliadau arferol yn unig
- Eich bod am fod yn fwy gweithgar yn y broses gynllunio
- Bod angen i ni ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan – trwy ddefnyddio iaith sy'n briodol i'r gynulleidfa rydym yn siarad â hi a gwella ein gwybodaeth a'i gwneud yn fwy hygyrch

Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion, ymgymerwyd â'r camau gweithredu canlynol, a oedd yn rhan allweddol o'r broses o ddiweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon:

**Data a thystiolaeth**:

- Mae Arsylwi Dyfroedd Cymru wedi parhau i gael ei ddiweddaru, gan ddarparu'r canlyniadau dosbarthu, amcanion a rhaglen mesurau diweddaraf http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/
- Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar gyfer cylchred gyntaf y cynlluniau rheoli basn afon (2009–2015).
- Roedd paneli cyswllt yr ardaloedd basn afon yn rhan o ddatblygu cynllun cyflwyno sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer rhoi'r cynlluniau rheoli basn afon diweddaredig ar waith, ynghyd â'n helpu ni i reoli risgiau o ran eu cyflwyno.  Mae'r paneli cyswllt hefyd wedi cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gynllunio a chyflwyno'r rhaglen o fesurau.
- Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, a oedd yn cynnwys data'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

---

[2] Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017

**Cyfathrebu**:

- Adolygwyd y cylch gorchwyl ar gyfer paneli cyswllt i roi mwy o bwyslais ar wneud penderfyniadau ar y cyd a gweithio mewn dalgylchoedd.
- Roedd yr Ymgynghoriad 'Heriau a Dewisiadau' (mis Hydref 2014 i fis Ebrill 2015) yn gyfle i drafod y materion mawr sy'n effeithio ar amgylchedd dŵr Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi helpu i wella ein dealltwriaeth ar y cyd o'r opsiynau ar gyfer gwella ein dyfroedd ac wedi dylanwadu ar y cynlluniau rheoli basn afon yn uniongyrchol.
- Rydym wedi sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch ac mewn iaith seml, e.e. cyhoeddi'r ffeithluniau ar gyfer Cymru ac Ardal Basn Afon Dyfrdwy ar ein gwefan ac Arsylwi Dyfroedd Cymru. Mae'r ffeithluniau yn dangos graddfa'r gwelliannau i amgylchedd dŵr Cymru. Cyflawnwyd hyn gyda chymorth gan bartneriaid o'r holl sectorau i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr. Ni allwn gyflawni'r amcanion ar ein pen ein hun.

**Cyflwyno ar lefel dalgylchoedd**:

- Gwnaed defnydd gwell o'r rhwydweithiau presennol a chynhaliwyd cyfres o 14 o weithdai dalgylch gennym i ddatblygu'r ail gylchred o gynlluniau rheoli basn afon. Defnyddiwyd yr wybodaeth a gasglwyd yn y crynodebau dalgylch, a oedd yn cefnogi'r cynlluniau rheoli basn afon diweddaredig.
- Darparwyd arian i fynd i'r afael â'r rhesymau am beidio â chyflawni statws da, sy'n cynnwys gwaith adfer ar gyfer rhai pyllau metel, gwaith adfer gwlyptiroedd ar raddfa fawr, a phrosiectau lleol (e.e. mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig). Roedd hyn yn cynnwys Cronfa Gweithredu Paneli Cyswllt y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, a oedd ar gael i gyfrannu at ein hamcanion i wella ein dyfroedd.
- Gwnaed cysylltiadau gyda mentrau a grwpiau newydd i gyflwyno'n genedlaethol ac yn lleol, e.e. is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, sy’n ystyried llygredd gwasgaredig mewn ardaloedd gwledig.

**Gwaith trawsffiniol**:

- Gwnaethom barhau i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn nalgylchoedd trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Hafren.
- Oherwydd nad oedd Panel Cyswllt Ardal Basn Afon Hafren bellach yn bodoli, gwnaethom ddarpariaeth i gefnogi rhanddeiliaid Cymru yn yr ardal basn hon drwy’r paneli cyswllt presennol ar gyfer Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru.

# 4.0 Trefniadau ymgynghori

## 4.1 Cwestiynau ymgynghori

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 1 | A yw'r rhaglen a amlinellwyd yn cynnwys yr holl gamau sylweddol angenrheidiol i adolygu a diweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon? |
| Cwestiwn 2 | Sut rydych am weithio gyda ni wrth ddiweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon? Dylech gynnwys y lefel o ymrwymiad (hysbysu, ymgynghori neu weithio gyda'n gilydd i ddatrys problemau) rydych am ei gael a nodi pa ddulliau o weithio y byddai'n well gennych. |
| Cwestiwn 3 | A oes gennych unrhyw awgrymiadau am sut y gallwn wella ein dulliau cyfathrebu â chi ar gyfer diweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon? A ydym wedi nodi'r sefydliadau cywir y mae angen iddynt fod |

| | |
|---|---|
| | yn rhan o adolygu a diweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon (gweler Atodiad 5)? |
| Cwestiwn 4 | • A ydym wedi nodi'r holl gynlluniau a strategaethau sy'n effeithio ar y cynlluniau rheoli basn afon neu yr effeithir arnynt ganddynt (gweler Atodiad 3)? Os nad ydym, dywedwch wrthym ba gynlluniau a strategaethau eraill y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt.<br>• A allwch chi nodi unrhyw gyfleoedd i integreiddio'r cynlluniau rheoli basn afon gyda chynlluniau a strategaethau eraill?<br>• Sut rydych yn meddwl y gall yr ymgynghoriad ar y cynlluniau rheoli basn afon a'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd diweddaredig gael ei gydlynu orau? |
| Cwestiwn 5 | Pa gyfleoedd y gallwch eu nodi o ran datblygu datganiadau ardal a fyddai'n cydweddu â'r cynlluniau rheoli basn afon? |
| Cwestiwn 6 | A oes gennych unrhyw sylwadau ar sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar ein fforwm newydd, Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, wrth iddo barhau i gyflwyno rôl y paneli cyswllt ond wrth iddo barhau i ymgymryd â rôl fwy sy'n adlewyrchu gwaith Fforwm Rheoli Tir Cymru? |
| Cwestiwn 7 | Rydym yn cynnig esbonio sut rydym wedi ystyried eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn pan fyddwn yn ymgynghori ar faterion rheoli dŵr sylweddol yn 2019. A ydych yn fodlon fod hwn yn ddull gweithio rhesymol? |

### 4.2 Sut i ymateb

Bydd angen derbyn ymatebion erbyn 22 Rhagfyr 2018 ar y ffurflen a ddarparwyd i roi gwybod i ni beth yw eich barn. Dylai'r ffurflen gael ei hanfon at:

wfd@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

neu drwy'r post at:
Jill Brown
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd, CF24 0TP

### 4.3 Sut bydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio?

Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i lunio sut rydym yn gweithio gydag eraill wrth adolygu a diweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon. Bydd unrhyw ymatebion rydych yn anfon atom yn cael eu gweld yn llawn gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad hwn. Efallai y bydd aelodau eraill o staff Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn eu gweld i'w helpu i gynllunio ar gyfer ymgynghoriadau eraill yn y dyfodol a gallant gael eu rhannu â staff Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a DEFRA.

### 4.4. Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n sicrhau bod yr holl sylwadau (ac eithrio gwybodaeth bersonol) ar gael ar gais. Mae hyn yn cynnwys sylwadau a dderbyniwyd, oni bai eich bod wedi nodi'n benodol eich bod yn dymuno i ni gadw'ch ymateb yn gyfrinachol. Ni


fyddwn yn cyhoeddi enwau unigolion sy'n ymateb; byddwn yn cyhoeddi enw'r sefydliad ar gyfer yr ymatebion hynny a wnaed ar ran sefydliadau.

Os byddwch yn ymateb i'r ymgynghoriad gyda chyfeiriad e-bost, byddwn yn cydnabod eich ymateb. Byddwn hefyd yn eich hysbysu am unrhyw ymgynghoriadau sydd ar y gweill, oni bai eich bod yn dweud wrthym nad ydych chi am dderbyn yr wybodaeth hon.

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn i weld gwybodaeth sydd gan sawl corff cyhoeddus, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi cael ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn ein caniatáu i ddal gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os oes unrhyw un yn gofyn i weld gwybodaeth rydym wedi'i dal yn ôl, bydd yn rhaid i ni benderfynu a fyddwn yn ei rhyddhau ai peidio. Os oes rhywun yn gofyn i'w enw a'i gyfeiriad beidio â chael eu cyhoeddi, mae hynny'n ffaith bwysig y bydd yn rhaid i ni ei hystyried. Fodd bynnag, weithiau efallai y bydd rhesymau pwysig pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er ei fod wedi gofyn iddynt beidio â chael eu cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn i ofyn am ei farn cyn penderfynu'n derfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu gwynion ynghylch y ffordd y mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei gynnal, dylech anfon e-bost at wfd@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Atodiad 1:  Map o ardaloedd basn afon Cymru



## **Atodiad 2: Datganiad o gamau –** Amserlen ar gyfer diweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon (2015–2021)

| Cam | Dyddiad a hyd | Diben |
|---|---|---|
| Ymgynghoriad statudol<br>**Gweithio gyda'n Gilydd** | Ymgynghoriad: erbyn mis Mehefin 2018 am gyfnod o chwe mis | **'Sut y dylem i gyd weithio gyda'n gilydd i ddiweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon?'**<br>• Gofyn sut rydych am gymryd rhan<br>• Esbonio'r camau allweddol yn y broses o gynllunio rheoli basnau afon ar gyfer Cylchred 3<br>• Sefydlu rhwydwaith o gysylltiadau er mwyn cynllunio ar gyfer Cylchred 3 |
| **Materion rheoli dŵr sylweddol**<br>Ymgynghoriad statudol | Ymgynghoriad: erbyn mis Mehefin 2019 am gyfnod o chwe mis | **'Beth yw'r materion amgylchedd dŵr sylweddol a beth y gellir ei wneud amdanynt?'**<br>• Gwella a rhannu tystiolaeth a gasglwyd drwy'r drydedd gylchred o gynllunio basnau afon<br>• Chwilio am farn ar atebion<br>• Datblygu syniadau o ran pwy y dylem fod yn gweithio gyda nhw i gyflawni canlyniadau amgylcheddol |
| **Cynllun rheoli basn afon drafft wedi'i ddiweddaru**<br>Ymgynghoriad statudol | Ymgynghoriad: erbyn mis Mehefin 2020 am gyfnod o chwe mis | **'A yw'r cynllun drafft yn nodi'r lefel gywir o uchelgais ar gyfer yr amgylchedd dŵr ac ymrwymiad i gyflawni?'**<br>• Rhagfynegi statws corff dŵr yn 2027<br>• Amcanion corff dŵr drafft<br>• Mesurau i'w cyflawni, gan gynnwys perchnogaeth camau gweithredu lleol a strategol<br>• Sut rydym yn cyflawni ar raddfa leol |
| **Cynlluniau Rheoli Basn Afon** sydd wedi'u diweddaru a'u cyhoeddi | Dyddiad cyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2021 | **'Bydd y cynllun yn mynd i'r afael â'r materion'**<br>• Cymeradwywyd gan y llywodraeth fel cynlluniau statudol<br>• Mesurau wedi'u blaenoriaethu yn seiliedig ar ddefnyddio mesurau mewn modd realistig ac egwyddorion fforddiadwyedd |

| Cam | Dyddiad a hyd | Diben |
|---|---|---|
| | | • Darparu fframwaith ar gyfer gwelliannau amgylcheddol sylweddol hyd at 2027 |

## Atodiad 3: Cynlluniau a strategaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli dŵr


| Mater | Teitl y cynllun/strategaeth | Corff arweiniol |
|---|---|---|
| Llifogydd ac erydu arfordirol | Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol | Llywodraeth Cymru |
| | Cynlluniau rheoli traethlin | Grwpiau arfordirol, wedi'u harwain gan yr awdurdod lleol |
| | Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Strategaethau lleol ar gyfer rheoli perygl llifogydd | Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol |
| | Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Addasu i'r newid yn yr hinsawdd | • Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010)<br>• Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017<br>• Adroddiad y Llywodraeth ar Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017<br>• Rhaglen Addasu Genedlaethol y DU 2013<br>• Cynlluniau a baratowyd gan gyrff cyhoeddus (gan gynnwys cwmnïau dŵr ac Asiantaeth yr Amgylchedd) fel "awdurdodau adrodd" dynodedig dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 y DU | Llywodraeth Cymru<br>Is-grŵp Pwyllgor y DU ar Addasu i Newid yn yr Hinsawdd<br>Llywodraeth y DU<br>Llywodraeth y DU*<br>Cyrff cyhoeddus |
| | Strategaeth a Chynllun Cenedlaethol y DU ar Addasu i Newid yn yr Hinsawdd | Pwyllgor y Llywodraeth ar Newid yn yr Hinsawdd, cyrff cyhoeddus a chwmnïau cyfleustodau |
| Polisi dŵr | Strategaeth Ddŵr i Gymru a’r cynllun gweithredu cysylltiedig | Llywodraeth Cymru |
| Cyflenwad dŵr | Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr | Cwmnïau dŵr |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynlluniau sychder | Cwmnïau dŵr |
| | Cynlluniau busnes cwmnïau dŵr | Cwmnïau dŵr |
| Bioamrywiaeth | Cynllun Adfer Natur | Llywodraeth Cymru |
| | Cynlluniau rheoli craidd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig / Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Cynlluniau thematig prosiect LIFE+ a Natura 2000<br><br>Cynlluniau Gwella Blaenoriaethol Natura 2000 | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Cynlluniau gweithredu adfer natur partneriaethau natur lleol / cynlluniau gweithredu partneriaethau bioamrywiaeth lleol<br>Blaengynlluniau ar gyfer Adran 6 – Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau | Awdurdodau lleol / awdurdodau parciau cenedlaethol / partneriaethau lleol |
| Rhywogaethau estron goresgynnol | Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr | Bwrdd Rhaglen Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr |
| Amaethyddiaeth | Cynllun Datblygu Gwledig | Llywodraeth Cymru |
| Coedwigaeth | Cynllun Adnoddau Coedwig | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Hamdden | Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy | Awdurdodau lleol |
| Parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol | Cynlluniau rheoli parciau cenedlaethol | Awdurdodau parciau cenedlaethol |
| | Cynlluniau rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol | Awdurdodau lleol |
| Ansawdd yr aer | Cynlluniau gweithredu ansawdd yr aer | Awdurdodau lleol |
| Morol | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (arfaethedig) | Llywodraeth Cymru |
| | Blaenoriaethau Dŵr Ymdrochi | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Rhaglen o fesurau Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol | Llywodraeth Cymru |
| Cemegau | Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU ar gyfer y | DEFRA, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr |

| | | |
|---|---|---|
| | Defnydd Cynaliadwy o Blaladdwyr (Cynhyrchion Diogelu Planhigion) 2013 | Alban, DARDNI, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| | Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Confensiwn Stockholm ar Lygryddion Organig Parhaus 2017 | DEFRA, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, DOENI |

* Mae hyn yn berthnasol yn bennaf i Loegr ond mae hefyd yn cynnwys materion nad ydynt yn rhai datganoledig i Gymru. Bydd DEFRA yn cyhoeddi rhaglen newydd yn 2018.

## Atodiad 4: Map o ddatganiadau ardal yng Nghymru



## Atodiad 5: Prif sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat y mae eu gweithgareddau a'u diddordebau'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynllun rheoli basn afon wedi'i ddiweddaru

| Sector | Enw | Enghreifftiau o'r math o sefydliad | Prif ddiddordebau |
|---|---|---|---|
| Rheoli tir amaethyddol a gwledig | Undebau ffermio<br><br>Grwpiau coedwigaeth a choetiroedd<br><br>Grwpiau cynghori rhanddeiliaid ar gyfer ardaloedd draenio mewnol (lle maent yn bodoli) | Sefydliadau aelodau sy'n cynrychioli diddordebau ffermwyr<br><br>Confor, Coed Cymru<br><br>14 ardal draenio mewnol yng Nghymru, pob un â grŵp cynghori rhanddeiliaid. | Diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd gwledig<br><br>Diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd gwledig<br><br>Wedi'u rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'r Ddeddf Draenio Tir i ddarparu draenio tir effeithiol mewn ardaloedd isel i hyrwyddo cynhyrchaeth amaethyddol. |
| Genweirio | Cyrff anllywodraethol amgylcheddol | Grwpiau cenedlaethol, e.e. Welsh Fisherman's Association – Cymdeithas Pysgotwyr Cymru Ltd ac Angling Cymru, grwpiau genweirio lleol, e.e. Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor, Cymdeithas Brithyll Teifi, Sefydliad Gwy ac Wysg | Ymgysylltu â chymunedau ac unigolion, gan adeiladu ar eu sgiliau, eu profiad a'u gwybodaeth leol, a'u cynnwys yn weithredol wrth wneud gwelliannau amgylcheddol. |
| Busnes a diwydiant | Diwydiant trwm a busnesau bach a chanolig | Pob math o ddiwydiant, e.e. Airbus UK, y Gymdeithas Diwydiannau Cemegol, Gorsaf Bŵer Sir Benfro, First Milk a busnesau bach a chanolig lleol | Cydymffurfio â rheoliadau megis trwyddedu amgylcheddol, difrod amgylcheddol a dŵr daear, i gyfyngu ar ddifrod amgylcheddol a helpu i atal halogi tir, llygredd a dirywiad dyfroedd. |
| Cadwraeth | Cyrff anllywodraethol amgylcheddol | E.e. Ymddiriedolaethau natur, yr RSPB Cadwch Gymru'n Daclus, Glandŵr Cymru, Coed Cadw | Ymgysylltu â chymunedau ac unigolion, gan adeiladu ar eu sgiliau, eu profiad a'u gwybodaeth leol, a'u cynnwys yn weithredol wrth wneud gwelliannau amgylcheddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y cyhoedd | Unigolion | Unigolion a grwpiau cymunedol | Gall pawb helpu i ddiogelu a gwella yr amgylchedd dŵr. |
| Llywodraeth leol a rhanbarthol | Awdurdodau lleol, awdurdodau cynllunio a pharciau cenedlaethol | Pob awdurdod lleol yng Nghymru, pob awdurdod cynllunio yng Nghymru. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a Pharc Cenedlaethol Eryri mewn perthynas â'r ardal basn afon briodol. | Mae dyletswyddau awdurdodau lleol yn ymwneud â chynllunio, gwastraff a mwynau, adfywio a halogi tir, priffyrdd, cludiant, cynllunio brys, rheoli cefn gwlad, dyfroedd ymdrochi, dŵr yfed ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat a gweithgareddau eraill.<br><br>Mae gan barciau cenedlaethol ddyletswydd i gadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol. |
| | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (yn cefnogi diddordebau llywodraeth leol) | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. | Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n cynrychioli diddordebau awdurdodau lleol yng Nghymru. |
| | Asiantaeth Safonau Bwyd | Adran llywodraeth annibynnol i ddiogelu iechyd y cyhoedd a diddordeb ehangach prynwyr mewn bwyd. | Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol am ddiogelu iechyd y cyhoedd a diddordebau ehangach prynwyr mewn bwyd. Mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol i orfodi rheoliadau diogelwch bwyd. |
| | Awdurdodau Gwarchod Pysgodfeydd y Glannau | Adran weinidogol o'r llywodraeth | Maent yn cyfrannu'n sylweddol at sectorau ein heconomi megis twristiaeth, porthladdoedd, llongau, a chynhyrchu ynni mewn ffyrdd gwahanol. |
| Mwyngloddio a chwarela | Sefydliadau mwyngloddio | Awdurdod Glo<br><br>Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol | Mae'r Awdurdod Glo'n cynnal rhaglen atal ac adfer ar gyfer dŵr cloddfeydd. |
| Mordwyaeth | Awdurdodau porthladd a harbwr | E.e. Awdurdod Harbwr Caerdydd, Porth Mostyn | Mae porthladdoedd, harbwrs a marinas yn hanfodol ar gyfer ffyniant economaidd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hamdden | Unigolion, grwpiau cymunedol a chyrff anllywodraethol amgylcheddol | E.e. Cymdeithas Hwylio Cymru, Eryri Bywiol | Mae dŵr hamdden yn cyfeirio at afonydd, llynnoedd a dyfroedd arfordirol.  Mae pobl yn defnyddio dŵr hamdden ar gyfer gweithgareddau megis nofio, syrffio, sgïo dŵr, chwaraeon dŵr gwyn, plymio tanddwr, hwylio a rhwyfo. |
| Trefol a chludiant | Awdurdodau lleol a busnes a diwydiant | Awdurdodau lleol a busnes a diwydiant | Gofalu am seilwaith trefol a chludiant |
| Dŵr | Ofwat | Adran Anweinidogol y Llywodraeth | Rheoleddiwr economaidd ar gyfer y sectorau dŵr a charthffosiaeth |
| | Cwmnïau dŵr | Darparwyr preifat dŵr a charthffosiaeth i gwsmeriaid | Dŵr yfed o ansawdd uchel, canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol, a chostau teg i gwsmeriaid |
| | Cyngor Defnyddwyr Dŵr | Corff defnyddwyr statudol ar gyfer y diwydiant dŵr | Yn darparu cyngor arbenigol am gwmnïau dŵr. |

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.